Cyngor Abertawe
Swansea Council

**HYSBYSIAD ADEILADU**
Deddf Adeiladu 1984
Rheoliadau Adeiladu 2010

LABC CYMRU


**Is-adran Rheoli Adeiladau**
**Gwasanaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Cyfarwyddiaeth Lleoedd**
**Ystafell G.4.2. Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,**
**Abertawe SA1 3SN**
**FFÔN: 01792 635636 FFACS: 01792 635644**
e-bost: rheoliadeiladau@abertawe.gov.uk


*Dylai'r person sy'n bwriadu gwneud y gwaith adeiladu neu'i asiant lenwi'r ffurflen hon. Os yw'r ffurflen yn anghyfarwydd, darllenwch y nodiadau arweiniol amgaeëdig neu cysylltwch â'r swyddfa a nodir uchod. Teipiwch neu defnyddiwch briflythrennau.*

**1** **MANYLION YR YMGEISYDD** (gweler nodyn 1)

Teitl:____________ Enw llawn:______________________________________________________

Cyfenw:______________________________________________________________________

Enw llawn y busnes: ____________________________________________________

Cyfeiriad:_____________________________________________________________________

Côd post:________________________ Ffôn:________________________ Ffacs: _______________

Cyfeiriad e bost:________________________________________________________________

**2** **MANYLION YR ASIANT** (os yw'n berthnasol)

Enw:__________________________________________________________________________

Cyfeiriad:_____________________________________________________________________

Côd post:________________________ Ffôn:________________________ Ffacs:_______________

Cyfeiriad e-bost:________________________________________________________________

**3** **LLEOLIAD YR ADEILAD Y MAE'R GWAITH YN BERTHNASOL IDDO**

Cyfeiriad:_____________________________________________________________________

Côd post:________________________ Ffôn:________________________ Ffacs:_______________

**4** **GWAITH ARFAETHEDIG**

Nifer y lloriau:_________________________________________________________________

Disgrifiad:_____________________________________________________________________

Dyddiad dechrau:______________________________________ (os yw'n hysbys, gweler nodyn 6)

**5** **DEFNYDD YR ADEILAD**

1. Os yw'n adeilad newydd neu'n estyniad, nodwch y defnydd arfaethedig: __________________

2. Os yw'n adeilad presennol, nodwch y defnydd presennol:_______________________________

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformat arall; os oes angen help arnoch i lenwi unrhyw ffurflenni, gofynnwch.

**6** **GWAITH TRYDANOL (yn berthnasol i anheddau'n unig)**

Nodwch pa rai o'r dulliau canlynol rydych yn bwriadu eu defnyddio er mwyn dangos y caiff yr holl waith o ran gosodiadau trydanol sefydlog sy'n gysylltiedig â'r cais hwn ei ddylunio, ei osod, ei archwilio a'i brofi yn unol â BS 7671:2001 (fel y'i diwygiwyd).

a) **Cynllun Person Cymwys**
Ni chodir tâl ychwanegol (gweler rhestr o'r cynlluniau cymeradwy yn y nodyn arweiniol atodedig) ☐

b) **Tystysgrif BS 7671**
Bydd trydanwr cymwys yn ardystio bod y gwaith wedi'i ddylunio, ei osod, ei archwilio a'i brofi yn unol â BS 7671 ac yn darparu Tystysgrif Gosodiadau Trydanol gydag amserlenni archwilio a phrofi i BS 7671. ☐
(D.S. Bydd yr opsiwn hwn yn codi tâl ychwanegol; cysylltwch â'r swyddfa i gael y ffi briodol.)

c) **Corff Rheoli Adeiladau**
Gyda'r opsiwn hwn, bydd trydanwr a gyflogir gan y cyngor yn archwilio, yn profi ac yn ardystio'r gosodiad trydanol. ☐
Sylwer: Bydd yr opsiwn hwn yn codi tâl ychwanegol; cysylltwch â'r swyddfa i gael y ffi briodol.)

**SYLWER**

Mae'r ffïoedd sy'n gysylltiedig ag opsiynau b) ac c) uchod yn daladwy wrth gyflwyno'r cais Rheoliadau Adeiladu.

Os dewisir opsiwn a) pan gyflwynir y cais ac yna newidir i opsiwn b) neu c) yn ddiweddarach, bydd y ffi ychwanegol berthnasol yn daladwy. Yn ogystal, gall hyn gynnwys agor gwaith a gwblhawyd er mwyn ei archwilio.

**7** **Os bydd eich cais ar gyfer tŷ neu fflat newydd neu'n addasiad i fod yn un o'r rhain, bydd yn rhaid i chi gael sgôr allyriadau carbon (TER a DER) a Thystysgrif Perfformiad Ynni, yn ogystal â chyfrifo effeithlonrwydd dŵr. Os hoffech i ni bennu'r rhain i chi, ffoniwch yr is-adran ar y rhif drosodd.**

**FFÏOEDD: Gweler y nodyn arweiniol perthnasol**

1. Gwaith Tabl A: nodwch gyfanswm yr anheddau - __________
2. Gwaith Tabl B: os yw'r gwaith yn cynnwys ffenestri newydd, ticiwch y blwch ☐
3. Gwaith Tabl B: os yw'r gwaith ar gyfer gwaith trydanol, neu'n ei gynnwys, gweler adran 7
4. Gwaith Tabl B neu C: nodwch amcangyfrif o gost y gwaith, heb gynnwys TAW: £________
   neu, os yw'r gwaith yn cynnwys estyniad, nodwch arwynebedd y lloriau: ___________$m^2$

Ffi Hysbysiad Adeiladu: £___________ ynghyd â TAW £___________

Ffi Drydan: £___________ ynghyd â TAW £___________

Cyfanswm: £_____________

***I dalu â cherdyn dros y ffôn – ffoniwch 01792 635636 / 635607 / 635619.***

**8** **DATGANIAD**

Rhoddir yr hysbysiad hwn o ran y gwaith adeiladu a ddisgrifir. Fe'i cyflwynir yn unol â Rheoliad 12(2) ac mae'r ffi briodol yn cyd-fynd ag ef.

Enw: ________________________ Llofnod: ______________________ Dyddiad: ______________

# NODIADAU ARWEINIOL AR YR HYSBYSIAD ADEILADU

**1**. Yr ymgeisydd yw'r person y gwneir y gwaith ar ei ran, e.e. perchennog yr adeilad.

**2.1** Dylid cwblhau a chyflwyno un copi o'r hysbysiad hwn.

**2.2** Ni ellir defnyddio hysbysiad adeiladu os bydd y gwaith yn adeilad newydd sy'n wynebu stryd breifat (priffordd sydd heb ei mabwysiadu) neu'n adeilad y mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol iddo, sef pob math o adeilad ac eithrio anheddau un teulu neu addasiadau ac estyniadau i un o'r rhain.

**3**. Os bydd y gwaith arfaethedig yn cynnwys adeiladu adeilad newydd neu estyniad, dylai'r hysbysiad hwn gyd-fynd ag un o'r canlynol:

**3.1** cynllun bloc ar raddfa nad yw'n llai na 1:1250 sy'n dangos:

**3.1.1** maint a safle'r adeilad, neu'r adeilad fel y'i hestynnir, a'i berthynas â'r ffiniau cyfagos;

**3.1.2** ffiniau cwrtil yr adeilad, neu'r adeilad fel y'i hestynnir, a maint, safle a defnydd pob adeilad neu adeilad arfaethedig arall o fewn y cwrtil hwnnw;

**3.1.3** lled a safle unrhyw stryd ar neu o fewn ffiniau cwrtil yr adeilad neu'r adeilad fel y'i hestynnir;

**3.1.4** y ddarpariaeth a wneir ar gyfer draenio'r adeilad neu'r estyniad;

**3.2** os cynigir adeiladu'r adeilad neu'r estyniad dros garthffos neu ddraen a ddangosir ar y map perthnasol o garthffosydd cyhoeddus, y rhagofalon a gymerir wrth adeiladu dros garthffos neu ddraen.

**4**. Os bydd y gwaith arfaethedig yn cynnwys gosod deunydd insiwleiddio yn waliau ceudod adeilad, bydd yr hysbysiad adeiladu hwn yn cyd-fynd â datganiad o ran y canlynol:

**4.1** enw a math y deunydd insiwleiddio a ddefnyddir;

**4.2** a gymeradwyir y deunydd insiwleiddio gan y British Board of Agrément neu a yw'n cydymffurfio â manyleb Safonau Prydeinig ai peidio;

**4.3** a yw'r gosodwr yn berson sy'n destun Tystysgrif Cofrestru'r Sefydliad Safonau Prydeinig neu a yw ef wedi'i gymeradwyo gan y British Board of Agrément i osod y deunydd hwnnw.

**5**.Os bydd y gwaith arfaethedig yn cynnwys darparu system storio dŵr poeth heb awyrell, bydd yr hysbysiad yn cyd-fynd â datganiad o ran y canlynol:

**5.1** enw, gwneuthuriad, model a math y system storio dŵr poeth a osodir;

**5.2** enw'r corff, os oes un ar gael, sydd wedi cymeradwyo neu ardystio bod y system yn gallu perfformio mewn ffordd sy'n bodloni gofynion Rhan G Atodlen 1 Rheoliadau Adeiladu 2010;

**5.3** enw'r corff, os oes un ar gael, sydd wedi cyflwyno unrhyw gerdyn adnabod gweithiwr cofrestredig presennol i osodwr neu osodwr arfaethedig y system.

**6**. Mae'n rhaid i bobl sy'n gwneud gwaith adeiladu roi hysbysiad ysgrifenedig o ddechrau'r gwaith o leiaf ddau ddiwrnod ymlaen llaw.

**7**. Bydd ffi'n daladwy fel arfer i gyfrannu at gost archwiliadau safle, sef un taliad sy'n cynnwys pob ymweliad angenrheidiol â'r safle tan i'r gwaith gael ei gwblhau'n foddhaol yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu.

**8**. Cyfrifir y ffi hysbysiad adeiladu yn unol â'r rheoliadau ffïoedd presennol a bydd yn daladwy ar adeg cyflwyno'r cais. Mae nodyn arweiniol ar ffïoedd ar gael ar gais.

**9**. Yn amodol ar ddarpariaeth benodol o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1936, mae hawl gan berchnogion a phreswylwyr adeiladau i'w draeniau dŵr brwnt a dŵr wyneb preifat gael eu cysylltu â'r carthffosydd cyhoeddus, pan fo hynny ar gael. Mae trefniadau arbennig yn berthnasol i ollyngiadau elifol masnachol. Mae'n rhaid i bobl sydd am wneud y cysylltiadau hynny roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd i'r awdurdod priodol.

**10.** Arweiniad cyffredinol yn unig yw'r nodiadau hyn, ceir manylion cyflwyno Hysbysiadau Adeiladu yn Rheoliad 12 a 13, Rheoliadau Adeiladu 2010 ac, o ran ffïoedd, yn Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdod Lleol) 2010.

**11**. Atgoffir pobl a gynigir i wneud gwaith adeiladu neu wneud newid sylweddol i ddefnydd ardal adeilad y gall fod angen caniatâd o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

**12**. Gellir cael mwy o wybodaeth a chyngor ar y Rheoliadau Adeiladu a materion cynllunio gan y cyngor.

**13**. Bydd yr Hysbysiad Adeiladu hwn yn dod i ben o dair blynedd ar ôl iddo gael ei roi i'r awdurdod lleol oni bai fod gwaith wedi dechrau cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan Adran 91 Deddf Adeiladu 1984. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i'n helpu i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni fydd yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. *Byddwn yn rhannu'ch data'n ddiogel â'r trydydd partïon canlynol yn unol â'n cytundeb rhannu data â hwy: Enwi a Rhifo Strydoedd, Cynllunio, Priffyrdd a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.*

Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel y bo'n briodol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. I gael mwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio eich data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.